

# Astudiaeth Enghreifftiol Cyngor Tref Blaenafon

## Cip cyflym

**Ynghanol yr argyfwng costau byw, mae Cyngor Tref Blaenafon wedi cyflwyno nifer o fentrau blaengar i geisio cael gwared â rhwystrau ariannol, i sicrhau y gall pobl leol gymryd rhan mewn gweithgareddau hanfodol ar gyfer iechyd, llesiant, ac ymgysylltu cymunedol.**

## Costau ac Effaith

### Dyddiau Llesiant Cymunedol 2023 a 2024

**£0**
Cost i Drigolion

Daeth **500+**
i bob digwyddiad

Cost y fenter hon ym mis Mawrth 2023 oedd £729 ac ym mis Mai 2024 roedd yn £871.

### Clwb Cyfeillio Sinema

**£0**
Cost i Drigolion

Daeth **50+**
y sesiwn i fwy nac 20+ sesiwn

Talodd y Cyngor am gost dangos y ffilmiau, lluniaeth a chostau trafnidiaeth. Cyfanswm cost y fenter hon yn 2023/24 oedd £2,567.

### Prosiect Sinema Awyr Agored 2024

**£0**
Cost i Drigolion. Cost tocyn arferol £12

Daeth **300**
dros ddwy noson

Cyfanswm y gost oedd £4645, ond y gost i'r Cyngor oedd £2,500, gan y cafodd ei ariannu ar y cyd trwy grant gan Gyngor Torfaen a ddefnyddiodd y grant ffyniant cyffredin a ffyniant bro.

### Menter Nofio Gymunedol

**£0**
Cost i Drigolion

Daeth **60+**
y sesiwn dros 4 sesiwn

Cost y fenter hon yn 2023/24 oedd £1018. Y gost i'r Cyngor oedd £0, gan y cafodd ei ariannu trwy grant a dderbyniwyd oddi wrth Gemau Stryd, sef menter gan Lywodraeth Cymru.

## Heriau

**Yn wyneb heriau parhaus yr argyfwng costau byw edrychodd Cyngor Tref Blaenafon ar ffyrdd o ymgysylltu â'r gymuned, darparu gweithgareddau am ddim neu am gost fechan, a gweithio gyda phartneriaid lleol i sicrhau y gallai pobl leol fanteisio ar wasanaethau hanfodol heb wynebu straen ariannol.**

## Atebion

- **Ym mis Mawrth 2023 a Mai 2024, daeth Dyddiau Llesiant Cymunedol â mudiadau lleol a 500 o bobl ynghyd ymhob digwyddiad, diwrnod o wasanaethau a gweithgareddau, gan arwain at adborth da a chynlluniau ar gyfer rhagor o ddigwyddiadau**
- **Mae'r Clwb Cyfeillio Sinema, fu'n rhedeg rhwng 2022 a 2024, wedi llwyddo mynd i'r afael ag unigrwydd trwy ddangosiadau ffilm misol rhad ac am ddim, gan ddenu mwy na 1,100 o bobl leol a sicrhau cefnogaeth barhaus.**
- **Mae'r Prosiect Sinema Awyr Agored eleni wedi rhoi'r cyfle i 300 o bobl leol fwynhau profiad sinema awyr agored rhad ac am ddim gyda harddwch Gweithfeydd Haearn Blaenafon yn gefndir.**
- **·Rhoddodd y Fenter Nofio Gymunedol sesiynau nofio rhad ac am ddim i fwy na 60 o bobl ymhob sesiwn, gan hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol, a bwriedir eu cynnal eto yn 2024/25.**

Diwrnod Llesiant Cymunedol | Clwb Cyfeillio Sinema | Prosiect Sinema Awyr Agored | Nofio Cymunedol

## Camau Allweddol

**1 Darganfyddwch pa Rymoedd mae'r Cyngor eu hangen**

Mae pob cyngor cymuned yng Nghymru yn gorfod cael grymoedd cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth amrywiol i'w cymunedau lleol. Mae'r grymoedd hyn, a ganiateir trwy ddeddfwriaeth, yn galluogi cynghorau i gynnal mentrau a gweithgareddau o bob math i wella llesiant ac ansawdd bywyd pobl leol.

**2 Cynhaliwch Asesiad Risg**

Cynhaliwch asesiad risg cynhwysfawr i adnabod a lliniaru rhag bethau posib allai godi yn ystod y digwyddiad. Dylai'r broses hon gynnwys gwerthuso peryglon diogelwch, cynllunio ar gyfer argyfyngau, sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau, a pharatoi cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael ag unrhyw heriau na chafodd eu rhagweld.

**3 Darganfyddwch â phwy y gallwch Gydweithio**

Mae mynd ati o ddifrif i chwilio am raglenni grantiau cymunedol yn gallu darparu cymorth ariannol ar gyfer prosiectau'r cyngor, ac mae partneriaethau gyda busnesau lleol, mudiadau nid er mwyn elw a chyrff llywodraeth yn cynnig cyfleoedd i rannu adnoddau a chydweithio. Gall y cydweithrediadau hyn danio arloesi, hybu ymgysylltu cymunedol, ac arwain at ddeilliannau cynaliadwy fydd o fudd i'r gymuned gyfan.

# Fideo Clwb Cyfeillio Ffilm Blaenafon




"bu farw fy ngwraig ddwy flynedd yn ôl, ac mae hwn wedi bod mor bwysig imi"

**Aelod o'r Clwb Cyfeillio Ffilm**

## Grymoedd a Ddefnyddiwyd gan Gyngor Tref Blaenafon

**Diwrnod Llesiant Cymunedol 2023 a 2024.**

Awdurdodir hyn dan A144 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n cynnwys dwy elfen o'r gweithgaredd sef – Grym i ddarparu cyfleusterau ar gyfer cynadleddau ac arddangosfeydd a hefyd i annog twristiaeth.

**Clwb Cyfeillio Ffilm**

Awdurdodir hyn dan A137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Grym Cyffredinol) – Grym i wario arian at ddibenion penodol na chawsant eu hawdurdodi fel arall.

**Prosiect Sinema Awyr Agored**

Awdurdodir hyn dan A145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Grym i ddarparu adloniant a chefnogaeth i'r celfyddydau gan gynnwys gwyliau a dathliadau. Caiff ei awdurdodi hefyd dan A144 Deddf Llywodraeth Leol 1972 sef – Grym i annog twristiaeth.

**Nofio Cymunedol**

Awdurdodir hyn dan A137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Grym Cyffredinol) – Grym i wario arian at ddibenion penodol na chawsant eu hawdurdodi fel arall.

BLAENAVON TOWN COUNCIL
AT SPES NON FRACTA

**Enghreifftiau gan Gyngor Tref Blaenafon yw'r rhain ac nid ydynt yn argymhellion:**

Gall grymoedd a chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru. gweinydd@unllaiscymru.cymru

## Adborth gan Bobl Leol:

**Roedd yr adborth gan bobl ar draws yr holl fentrau yn pwysleisio gwerth mynediad am ddim, y cyfle i ymgysylltu â gwasanaethau lleol, a chryfhau clymau cymunedol.**

"Rydym yn teimlo'n freintiedig iawn i fyw mewn tref sydd â chyngor sy'n gofalu fod cyfleoedd a gweithgareddau i bawb."

"Mae'r sesiynau coginio ar gyllideb wedi fy helpu i a'm teulu gyda cheisio cael prydau a chynhwysion da am lai o arian yn ystod yr argyfwng costau byw hwn."

## Y Dyfodol

**Mae Cyngor Tref Blaenafon wedi ymrwymo i barhau â'i fentrau llesiant cymunedol & archwilio cyfleoedd newydd a blaengar i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw parhaus. Mae'r rhain yn cynnwys Ffitrwydd Mamau & Merched, Hwb Cefnogi Cyn Filwyr, a'r Ystafell Gwisgoedd Chwaraeon Gymunedol.**

**Mae disgwyl i Ddyddiau Llesiant Cymunedol, y Clwb Cyfeillio Sinema, sesiynau ychwanegol ar Goginio ar Gyllideb, a'r Fenter Nofio Gymunedol barhau. Rydym yn parhau i anelu at gynaliadwyedd, cynhwysiant, ac atebion dan arweiniad y gymuned i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.**

### Eisiau Gwybod Mwy?

**Er mwyn cael mwy o wybodaeth am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK